

CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

**POLISI A GWEITHDREFN
APELIADAU
ACADEMAIDD**

Cyflwyniad	3
Polisi.....	3
Cyflwyno Apêl	5
Apeliadau hwyr.....	5
Sut y bydd eich apêl yn cael ei phrosesu a'i hystyried.....	6
Gwneud cais i adolygu'r penderfyniad.....	7

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r weithdrefn hon yn ymdrin ag apeliadau gan fyfyrwyr yn erbyn penderfyniadau academaidd a wnaed gan Fwrdd Arholi ar gyfer rhaglenni gradd a addysgir ac ymchwil. Bydd Byrddau Arholi'n gwneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'ch canlyniadau ar gyfer eich asesiadau a byddant yn cadarnhau'r canlyniadau.
- 1.2. Mae'n bwysig eich bod yn deall y seiliau sy'n eich galluogi i apelio, y camau y bydd angen i chi eu cymryd, a lle gallwch gael help pan fyddwch yn gwneud apêl academaidd. Mae'r seiliau ar gyfer apelio wedi'u diffinio'n eglur yn y weithdrefn hon ac fe'u gelwir yn *seiliau* apêl.
- 1.3. Os yw eich cwyn yn ymwneud â gwasanaeth, neu fyfyrwr arall neu aelod o staff, dylech ddefnyddio'r [Weithdrefn Gwyno Myfyrwyr](#) i ddod â'ch pryderon i sylw'r Ysgol neu'r adran berthnasol.
- 1.4. Bydd yr holl staff sydd â mynediad at, neu sy'n ystyried, apeliadau academaidd wedi cael hyfforddiant ar gyfer y rôl a sut i weithredu'r gweithdrefnau a amlinellir yn y ddogfen hon. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r Tîm Achosion Myfyrwyr, Staff Gwasanaethau Proffesiynol ac Uwch Academyddion.
- 1.5. Mae modd i chi gael cyngor annibynnol ar y Weithdrefn hon gan [Gyngor i Fyfyrwyr Undeb y Myfyrwyr](#) neu gorff cynrychioliadol arall, gan gynnwys y sail dros apelio a'r math o wybodaeth a thystiolaeth ddylid eu cyflwyno.
- 1.6. Os oes gennych chi anabledd ac angen addasiadau i'r weithdrefn hon er mwyn gallu ymgysylltu'n llawn yn y broses, cysylltwch â [Phennaeth y Gofrestrfai](#) drafod unrhyw addasiadau rhesymol y gellid eu gwneud i'ch helpu i ymgysylltu.

2. Polisi

- 2.1. Mae gennych yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad Bwrdd Arholi'r Rhaglen, gradd Gyfansawdd neu ymchwil (cyfeirir ato fel y Bwrdd Arholi wedi hyn).
- 2.2. Gall pob myfyrwr sydd ar raglen astudio sy'n arwain at ddyfarniad Prifysgol Caerdydd ddefnyddio'r Weithdrefn Apelio, boed y dyfarniad yn cael ei gyflwyno yn y Brifysgol neu mewn partneriaeth â darparwyr eraill.
- 2.3. **Mae'r seiliau ar gyfer apelio wedi'u cyfyngu i'r canlynol:**
 - gwall rhifyddol neu wall ffeithiol arall yn y canlyniadau a gyhoeddwyd yn dilyn penderfyniad y Bwrdd Arholi; **a/neu**
 - anghysondeb yn y modd y cynhaliwyd yr asesiad, y cyfarwyddiadau ysgrifenedig, neu gyngor ysgrifenedig sy'n ymwneud â'r asesiad, lle gellir dangos bod hyn wedi cael effaith andwyol ar y canlyniad ac nad oedd yn wybyddus i'r Bwrdd Arholi ar yr adeg pan oedd yn ystyried

eich canlyniadau, neu a oedd yn wybyddus i'r Bwrdd Arholi a lle'r oedd y Bwrdd Arholi wedi gwneud penderfyniad afresymol; **a/neu**

- unrhyw amgylchiadau esgusodol y gellir dangos eu bod wedi cael effaith andwyol ar eich perfformiad academiaidd, nad oedd yn wybyddus i'r Bwrdd Arholi a lle nad oedd modd i chi hysbysu'r Bwrdd Arholi ohonynt cyn dyddiad cau'r Ysgol, neu a oedd yn wybyddus i'r Bwrdd Arholi a lle'r oedd y Bwrdd Arholi wedi gwneud penderfyniad afresymol. Mae diffiniad y Brifysgol o amgylchiadau esgusodol wedi'i ddiffinio yng [Ngweithdrefnau Amgylchiadau Esgusodol](#) y Brifysgol.

- 2.4. Bydd yr holl wybodaeth a gyflwynir gennych fel rhan o apêl yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw fanylion a thystiolaeth ategol yn cael ei rhannu â'r staff hynny'n unig sydd angen gwybod er mwyn prosesu ac ystyried eich apêl. Efallai na fydd hyn yn gymwys os ydych ar raglen sy'n arwain at gofrestrriad proffesiynol a bod yr wybodaeth a gyflwynir gennych yn dangos bod gennych gyflwr parhaol a all effeithio ar eich cofrestrriad, diogelwch pobl eraill, neu eich diogelwch chi. Mewn achosion o'r fath, gall eich Ysgol ystyried atgyfeirio'r mater at y [Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer](#), at lechyd Galwedigaethol, neu os oes anabledd parhaus, at y [Gwasanaeth Anabledd a Dyslecsia](#).
- 2.5. Os byddwch yn cyflwyno gwybodaeth am unigolyn arall - er enghraifft, amgylchiadau esgusodol sy'n gysylltiedig ag unigolyn arall yr ydych yn credu sydd wedi effeithio arnoch chi - rhaid i chi gael eu cydsyniad hwy i rannu'r wybodaeth hon â ni.
- 2.6. Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i ddarparu gwybodaeth eglur a thryloyw i chi ar sut i apelio yn erbyn penderfyniad ffurfiol Bwrdd Arholi. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi ar dudalennau gwefan y Brifysgol. Mae gennych yr hawl i herio penderfyniad ffurfiol Bwrdd Arholi ar ôl cyhoeddi trawsgrifiad eich canlyniadau. Ni allwch apelio cyn i'ch canlyniadau gael eu cadarnhau gan Fwrdd Arholi a'u cyhoeddi yn eich trawsgrifiad neu lythyr canlyniadau.
- 2.7. Er mwyn i chi fod yn gymwys i gael eich ystyried, rhaid i chi ddangos bod gennych achos cryf o dan un neu ragor o'r seiliau apelio a amlinellir yn 2.3 uchod, a all gael ei ategu gan dystiolaeth briodol. Os na roddir sail a/neu nid oes achos credadwy wedi'i gyflwyno a/neu nid oes tystiolaeth wedi'i chyflwyno, ni ellir ystyried y cais neu gall gael ei wrthod.
- 2.8. Bydd y staff Gwasanaethau Proffesiynol a'r Uwch staff Academiaidd sy'n gwneud penderfyniadau ar eich apêl yn cael eu penodi o'r tu allan i'ch ysgol.
- 2.9. Mae'r Brifysgol yn ymdrechu i ddatrys pob apêl academiaidd yn brydlon ac o fewn yr amserlen a bennir gan y Weithdrefn hon.

3. Cyflwyno Apêl

- 3.1 Bydd canlyniadau eich asesiad neu radd yn cael eu penderfynu'n ffurfiol gan y Bwrdd Arholi. Bydd y canlyniadau'n cael eu cadarnhau'n ffurfiol i chi pan fydd eich trawsgrifiad neu lythyr canlyniadau'n cael ei anfon atoch. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys gwybodaeth ar sut i apelio yn erbyn y penderfyniad y Bwrdd Arholi.
- 3.2 Bydd gennych **28 diwrnod** o ddyddiad eich trawsgrifiad neu lythyr canlyniadau, a anfonir drwy e-bost, i apelio yn erbyn penderfyniad y Bwrdd Arholi.
- 3.3 Mae'r Weithdrefn Apeliadau Academaidd yn un cyfle i fynegi pob mater gwybyddus sy'n achos pryder yn gysylltiedig â phenderfyniad y Bwrdd Arholi. Mae'n bwysig eich bod yn egluro pob pryder yn llawn ac yn cynnwys yr holl dystiolaeth ategol gyda'ch apêl. Rhaid i'r dystiolaeth fod yn gymesur â'r amgylchiadau a honnir.
- 3.4 Bydd apeliadau'n cael eu hystyried o dan seiliau penodol yn unig, fel y nodir yn 2.3 (uchod). Ni dderbynnir apeliadau a wneir am unrhyw reswm arall. Er enghraifft, **ni** allwch apelio yn erbyn eich canlyniadau drwy herio barn academaidd yr arholwyr neu am eich bod yn credu eich bod yn haeddu marc uwch.
- 3.5 Os yw sail eich apêl yn ymwneud ag amgylchiadau esgusodol a oedd wedi'u gwrthod eisoes gan eich Ysgol, rhaid i chi egluro pan yr ydych yn anghytuno â phenderfyniad eich Ysgol i wrthod yr amgylchiadau.
- 3.6 Gallwch enwebu cynrychiolydd i reoli eich apêl ar eich rhan. Bydd yn rhaid i chi lofnodi 'Ffurflen Awdurdodi' os hoffech i'r Brifysgol ohebu â'ch cynrychiolydd ynglŷn â'ch apêl. Gall cynghorwyr Undeb y Myfyrwyr roi arweiniad i chi ar yr opsiynau sydd ar gael i chi.

4. Apeliadau hwyr

- 4.1. Os na allwch gyflwyno apêl o fewn **28 diwrnod** o ddyddiad eich trawsgrifiad neu lythyr canlyniadau, dylech roi rheswm yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Achosion Myfyrwyr pam nad oedd yn bosibl nac yn rhesymol i chi i gyflwyno apêl o fewn y terfyn amser. Bydd yn rhaid i chi gynnwys tystiolaeth i ategu eich eglurhad.
- 4.2. Bydd y Pennaeth Achosion Myfyrwyr yn ystyried y rheswm/rhesymau dros eich apêl hwyr a bydd yn penderfynu a fydd yn derbyn yr apêl hwyr ai peidio. Os bydd yn gwrthod eich apêl, gallwch herio'r penderfyniad yn unol â [Gweithdrefn Adolygu'r Brifysgol](#).

5. Sut y bydd eich apêl yn cael ei phrosesu a'i hystyried

- 5.1. Mae'r tîm Achosion Myfyrwyr yn gyfrifol am ystyried apeliadau academiaidd yn unol â'r weithdrefn hon ac mae'n annibynnol ar eich Ysgol.
- 5.2. Caiff pob apêl ei hystyried yn deg ac ar sail yr wybodaeth a'r dystiolaeth a gyflwynir. Rydych chi'n gyfrifol am yr holl dystiolaeth a'r wybodaeth rydych am gael eu hystyried ar yr adeg pan fyddwch yn cyflwyno eich apêl. Ni fydd y Brifysgol yn gallu cysylltu â thrydydd partion (e.e. meddygon, tiwtoriaid, yr heddlu, adrannau neu Ysgolion y Brifysgol) i gael y dystiolaeth hon ar eich rhan.
- 5.3. Os na allwch gyflwyno tystiolaeth gyda'ch apêl, dylech egluro pam nad yw'r dystiolaeth wedi'i chynnwys a nodi pa bryd y bydd yn cael ei chyflwyno. Bydd y Pennaeth Achosion Myfyrwyr yn ystyried a yw'n briodol i ganiatáu amser ychwanegol i gyflwyno'r dystiolaeth.
- 5.4. Bydd eich apêl yn cael ei hadolygu gan y Swyddog Achosion Myfyrwyr a fydd yn penderfynu a yw eich apêl o fewn seiliau a ganiateir ac a oes tystiolaeth berthnasol i'w hystyried. Cewch eich hysbysu a fydd eich apêl yn cael ei hystyried, yn ysgrifenedig, o fewn **14 diwrnod**.
- 5.5. Gall y Swyddog Achosion Myfyrwyr gysylltu â Chadeirydd y Bwrdd Arholi i gael unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen i ystyried eich apêl. Os mai amgylchiadau esgusodol yw sail eich apêl, gall hyn gynnwys copïau o ffurflenni amgylchiadau esgusodol a gyflwynwyd gennych yn flaenorol (gan gynnwys ceisiadau hunan-ardystio) a, phan yn briodol, unrhyw dystiolaeth ategol. Disgwylir i'r Cadeirydd ddarparu hyn o fewn **14 diwrnod** ar ôl y cais gan y Swyddog Achosion Myfyrwyr.
- 5.6. Mewn achosion eithriadol, gall y Swyddog Achosion Myfyrwyr eich gwahodd i gyflwyno gwybodaeth ychwanegol fel eglurhad pellach, a/neu yn achos apeliadau cymhleth, eich gwahodd i gyfarfod gyda'r Swyddog Achosion Myfyrwyr i egluro'r materion a godwyd gennych.
- 5.7. Mae apeliadau academiaidd yn cael eu hystyried yn brydlon ac yn unol â'r amserlenni a nodir yn y weithdrefn hon. Ni fydd yn bosibl cyflymu apeliadau unigol, gan fod pob apêl yn cael ei hystyried mewn modd cyson er mwyn sicrhau bod pob myfyriwr yn cael eu trin yn yr un ffordd. Nes bydd eich apêl wedi'i chwblhau, bydd y canlyniad a gadarnhawyd yn y trawsgrifiad neu'r llythyr canlyniadau yn sefyll.
- 5.8. Bydd y Swyddog Achosion Myfyrwyr yn ymgynghori ag uwch aelod o'r tîm Achosion Myfyrwyr i wneud penderfyniad ar eich apêl a bydd yn sicrhau bod y penderfyniad yn gymesur â'r amgylchiadau. Bydd y Swyddog Achosion Myfyrwyr yn cymryd un o'r camau canlynol:
 - Cadarnhau eich apêl (naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol) a chyfeirio'r achos at Fwrdd Arholi i'w hystyried yn ffurfiol. Mewn rhai achosion, efallai na fydd penderfyniad y Bwrdd Arholi'n newid.

- Os oes gwall rhifyddol wedi'i ganfod, bydd yn cadarnhau'r canlyniad mewn trawsgrifiad neu lythyr canlyniad a ailgyhoeddir a bydd eich cofnod myfyriwr yn cael ei enwid. Os gall y gwall rhifyddol arwain at newid dosbarthiad eich dyfarniad, bydd yn rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Arholi gadarnhau'r dosbarthiad diwygiedig yn ffurfiol.
- Gwrthod eich apêl os nad yw'n dod o fewn un o'r seiliau cymeradwy.

5.8 Bydd y Swyddog Achosion Myfyrwyr sy'n delio â'ch apêl yn cysylltu â chi'n uniongyrchol o fewn **60 diwrnod** ar ôl i'r tîm Achosion Myfyrwyr gael eich apêl i egluro a yw'r apêl wedi ei chadarnhau neu ei gwrthod. Bydd yr e-bost yn cadarnhau'r penderfyniad a'r opsiynau i herio'r penderfyniad eto os nad ydych yn fodlon â'r canlyniad.

6. Gwneud cais i adolygu'r penderfyniad

6.1. Os cafodd eich apêl ei gwrthod, neu ei chadarnhau'n rhannol, a'ch bod yn credu bod y penderfyniad ar eich apêl naill ai wedi'i brosesu'n anghywir neu'n afresymol, a/neu bod gennych wybodaeth berthnasol ychwanegol nad oedd modd i chi ei chyflwyno ar adeg eich apêl, mae gennych yr hawl i herio'r penderfyniad o dan [Weithdrefn Adolygu'r Brifysgol](#).